



Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council



CYNGOR TREF CAERFYRDDIN YN DATHLU YMRWYMIAD I GYFLOG BYW

Mae'r *Living Wage Foundation* yn falch o gyhoeddi fod Cyngor Tref Caerfyrddin wedi cael ei achredu fel cyflogwr Cyflog Byw.

Mae eu hymrwymiad Cyflog Byw yn golygu y bydd staff Cyngor Tref Caerfyrddin yn derbyn isafswm cyflog o £8.75 yr awr. Mae'r gyfradd yma yn sylweddol uwch nag isafswm statudol Llywodraeth y DU o £7.50 yr awr a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2017.

Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i osod yn annibynnol, caiff ei ddiweddarau'n flynyddol a'i gyfrifo yn unol â chostau byw go iawn.

"Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn falch iawn o gael ein cydnabod fel hyn gan y Living Wage Foundation," dywedodd Maer Caerfyrddin a Chadeirydd Cyngor y Dref, y Cynghorydd Alun Lenny. "Fel awdurdod lleol bach rydym yn awyddus i wneud ein gorau glas i'n holl staff, sydd yn gwneud gwaith mor ardderchog yn gwasanaethu'r cyhoedd. Mae ond yn iawn a phriodol eu bod yn cael gwobr o gyflog byw fel yr argymhellir gan y Living Wage Foundation, sydd dros bunt yr awr yn fwy na'r hyn a elwir yn gyflog byw Llywodraeth y DU.

"Rydym wedi bod yn gwneud hyn ers nifer o flynyddoedd bellach ac mae cael ein hachredu fel hyn yn bleserus iawn. Hoffwn ddiolch i dîm Cyngor y Dref am y gwaith caled mae'n ei wneud i wasanaethu pobl Caerfyrddin. Yn ogystal â dyletswyddau dydd i ddydd rhedeg parciau a mynwent y Dref, mae'r cyngor yn trefnu digwyddiadau megis troi'r goleuadau Nadolig ymlaen yn ddiweddar a gorymdaith Sion Corn a'r ceirw. Mae arddangosfa goleuadau Nadolig Caerfyrddin yn destun eiddgedd i drefi eraill ar draws De a Gorllewin Cymru. Mae hyn i gyd yn cyfrannu tuag at wneud Caerfyrddin yn dref mor gyffrous, bywiog a ffyniannus."

Mae cyflogwyr yn dewis talu'r Cyflog Byw gwirioneddol yn wirfoddol. Mae'r Cyflog Byw yn cael cefnogaeth wleidyddol drawsbleidiol.

Dyweddodd **Katherine Chapman, Cyfarwyddwr, Living Wage Foundation**: "Rydym yn croesawu Cyngor Tref Caerfyrddin i'r mudiad Cyflog Byw fel cyflogwr achrededig.

"Mae busnesau cyfrifol ledled y DU yn cofrestru'n wirfoddol i dalu'r Cyflog Byw gwirioneddol nawr. Mae'r gyfradd Cyflog Byw gwirioneddol yn cael ei gyfrifo bob blwyddyn i adlewyrchu costau byw gwirioneddol."

"Rydym yn fudiad o dros 3,600 o gyflogwyr yn y DU sydd, gyda'i gilydd, am fynd ymhellach na lleiafswm y llywodraeth i sicrhau bod eu holl staff yn ennill digon i fyw arno. Mae gennym lawer o fusnesau bach yn ogystal ag enwau cyfarwydd mawr fel; IKEA, Aviva, Clybiau pêl-droed Chelsea ac Everton a llawer mwy.

Mae'r busnesau hyn yn cydnabod mai achrediad cyflogwr cyfrifol yw'r achrediad Cyflog Byw ac maen nhw, fel Cyngor Tref Caerfyrddin, yn ymuno â ni, oherwydd eu bod nhw hefyd yn credu bod diwrnod caled o waith yn haeddu tâl diwrnod teg. "